# Hyfforddwr Academi'r BBC – Telerau Arbennig

Sylwch fod y fersiwn Saesneg o'r telerau hyn ar gael isod.

Mae'r telerau arbennig a nodir isod yn berthnasol i Hyfforddwyr sy'n cael eu cyflogi gan BBC Academy yn unig (naill ai fel unigolion neu drwy drefniadau Cwmni Gwasanaeth Personol), ac maent yn atodol i'r telerau ac amodau rydych chi wedi cytuno arnynt yn flaenorol.

Os bydd y telerau ac amodau cyffredinol yn gwrthdaro â'r telerau arbennig hyn, y telerau arbennig fydd drechaf.

**1 Diffiniadau**

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

1.1 Mae **"Eiddo Deallusol sy'n Benodol i Gontract"** yn golygu Hawliau Eiddo Deallusol yn yr hyfforddiant a'r deunyddiau cysylltiedig a ddatblygwyd gennych Chi mewn perthynas â'ch gwasanaethau Chi.

2.1 Mae **"Eiddo Deallusol sydd Eisoes yn Bodoli"** yn golygu Hawliau Eiddo Deallusol sy'n eiddo i'r BBC, i Chi neu i'ch Cwmni Gwasanaeth adeg y cafodd y contract ei dderbyn ar gyfer y gwasanaethau.

2.3 Mae **"Eiddo Deallusol Trydydd Parti"** yn golygu Hawliau Eiddo Deallusol sy'n eiddo i barti ar wahân i'r BBC neu Chi neu Eich Cwmni Gwasanaeth.

**2 Hawliau Eiddo Deallusol**

2.1 Bydd y canlynol yn ategu'r Cymal Eiddo Deallusol a nodir yn y telerau ac amodau cyffredinol yr ydych Chi wedi cytuno iddynt yn flaenorol:

a. Rydych Chi drwy hyn yn neilltuo i'r BBC pob eiddo deallusol sy'n benodol i gontract gyda gwarant lawn (ac yn ildio pob hawl foesol yn ddi-droi'n-ôl i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith) ac yn gwarantu bod ei swyddogion, ei weithwyr a/neu ei asiantau perthnasol ac unrhyw is-gontractwr a ymrwymir gennych Chi yma wedi'u neilltuo (neu'n mynd i gael eu neilltuo) (ac yn ildio'r holl hawliau moesol yn ddi-droi'n-ôl i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith) i'r BBC yn llwyr. Mae'r BBC drwy hyn yn cytuno i roi trwydded i Chi mewn perthynas ag Eiddo Deallusol sy'n Benodol i Gontract ar

unrhyw delerau y bydd y partïon yn cytuno arnynt.

b. Ni fydd perchnogaeth ar Hawliau Eiddo Deallusol y BBC, boed hynny o Eiddo Deallusol sydd eisoes yn bodoli, neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig y BBC ymlaen llaw ac ar unrhyw delerau y cytunir arnynt gan y BBC yn benodol, neu drwy oblygiad, yn cael ei rhoi i Chi ac ni ddylech Chi ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y BBC ac ar unrhyw delerau y cytunir arnynt gan y partïon.

c. Ni fydd perchnogaeth o'ch Eiddo Deallusol sydd eisoes yn bodoli yn cael ei throsglwyddo'n benodol i'r BBC na thrwy oblygiad. Rydych Chi drwy hyn yn rhoi trwydded ddi-droi'n-ôl, anghyfyngedig, heb freindal, i'r BBC ddefnyddio'r Eiddo Deallusol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer deunydd a ddefnyddir yn y gwasanaethau ac mewn perthynas â'r gwasanaethau yn unig.

d. Pan fyddwch Chi'n defnyddio Eiddo Deallusol Trydydd Parti wrth ddarparu'r gwasanaethau, byddwch Chi'n sicrhau bod gan y BBC a Chi (i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol at ddibenion y gwasanaethau) drwydded anghyfyngedig i ddefnyddio Eiddo Deallusol Trydydd Parti o'r fath.

e. Pan fydd yr holl hyfforddiant a deunyddiau a ddefnyddir gennych Chi i ddarparu gwasanaethau wedi cael eu datblygu gan y BBC yn unig, ni fyddwch Chi'n gyfrifol am ddal unrhyw gydsyniadau, caniatâd a/neu gliriadau mewn perthynas ag unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd wedi'u cynnwys mewn deunydd o'r fath. Caiff y cymal Indemniad yn y telerau cyffredinol ei ddiwygio i'r canlynol: "*unrhyw hawliadau a wneir gan drydydd partïon o ganlyniad i weithredoedd neu anweithredoedd (gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol a ddarperir gennych Chi neu unrhyw unigolyn, asiant neu is-*

*gontractwr a ymrwymir gennych Chi mewn cysylltiad â'r Archeb)*".

f. Byddwch yn dal, a lle bo angen, yn sicrhau bod unrhyw is-gontractwyr yn dal, unrhyw gydsyniadau, caniatâd a/neu gliriadau angenrheidiol mewn Eiddo Deallusol Trydydd Parti sy'n angenrheidiol i'ch galluogi Chi i gyflawni'r gwasanaethau o dan yr Archeb hon.

**3 Telerau Canslo**

3.1 Heb ragfarn i'r cymal terfynu yn y telerau ac amodau, os bydd y BBC yn canslo'r Archeb, neu unrhyw ran ohoni, bydd y telerau canlynol yn berthnasol:

3.2 Os bydd y BBC yn canslo'r Archeb, neu unrhyw ran ohoni, bydd y partïon yn gwneud pob ymdrech resymol i'w haildrefnu ac, os bydd yr Archeb yn cael ei haildrefnu, ni fydd unrhyw ffioedd canslo'n daladwy. Os nad yw'r partïon yn gallu aildrefnu'r Archeb, bydd y canlynol yn berthnasol.

Bydd y BBC yn rhoi rhybudd i Chi fod yr archeb yn cael ei chanslo:

a) 15 diwrnod neu fwy cyn dechrau'r Archeb, ni fydd y BBC yn atebol am unrhyw ffioedd canslo.
b) 8–14 diwrnod cyn dechrau'r Archeb, bydd y BBC yn talu 40% o'r ffi i Chi am yr Archeb sy'n cael ei chanslo, neu gyfran o'r ffi honno y mae'n rhesymol i'r BBC ei hystyried yn briodol.
c) Hyd at a chan gynnwys 7 diwrnod cyn dechrau'r Archeb, bydd y BBC yn talu 75% o'r ffi i Chi am yr Archeb sy'n cael ei chanslo, neu gyfran o'r ffi honno y mae'n rhesymol i'r BBC ei hystyried yn daladwy.

3.3 Heb ragfarn i'r paragraffau uchod, os byddwch yn canslo rhaid i Chi wneud Eich gorau glas i osgoi neu adennill unrhyw dreuliau a allai fod yn daladwy fel arall. Os na allwch Chi wneud hynny, bydd y BBC yn ad-dalu treuliau o'r fath yn unol â Pholisi'r BBC.

**4 Rhestr Presenoldeb**

4.1 Byddwch Chi'n sicrhau bod pawb sy'n mynd ar eu cyrsiau yn llofnodi ac yn cwblhau'r rhestr presenoldeb a ddarperir gan y BBC ar gyfer pob diwrnod o'r cwrs. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, yr

adran sy’n gofyn am adborth ar y cwrs (“**Rhestrau Presenoldeb**”). Rhaid i chi ddychwelyd yr holl Restrau Presenoldeb wedi’u llenwi i’r BBC (d/o tîm cydlynu’r Academi) erbyn 17.00 ar y trydydd diwrnod ar ôl y dyddiad y daw’r cwrs i ben. Gellir sganio neu e-bostio’r Rhestrau Presenoldeb i Academi’r BBC ac, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rhaid i’r Rhestrau Presenoldeb gynnwys holl enwau’r cynrychiolwyr sy’n mynd ar y cwrs/cyrsiau.

4.2 Os byddwch Chi’n methu â dychwelyd y Rhestr Presenoldeb i’r BBC yn unol â’r cymal hwn, gallai hyn arwain at y ffi’n cael ei dal yn ôl neu eich tynnu oddi ar y rhestr o gontractwyr cymeradwy.